Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

# Polisi Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg | This document is available in Welsh and English**

CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 1 |
| 2 | Diben | 1 |
| 3 | Cwmpas | 2 |
| 4 | Polisi Diwydrwydd Dyladwy | 4 |
| 5 | Monitro | 6 |
| 6 | Camddefnyddio'r Polisi | 6 |
| 7 | Cysylltiadau â pholisïau a gweithdrefnau eraill | 6 |
| 8 | Rhagor o wybodaeth ac arweiniad defnyddiol | 7 |


## 1. Cyflwyniad

Nod yr egwyddorion sy'n sail i Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy yw cefnogi uniondeb cydweithredu ymchwil rhyngwladol y Brifysgol, sy'n hanfodol i lwyddiant parhaus ei gweithgarwch ymchwil ac arloesi. Mae Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant wedi ymrwymo i gydweithredu rhyngwladol effeithiol ym maes ymchwil ac arloesi ac mae'n rhaid iddi sicrhau bod hyn yn digwydd gydag uniondeb ac o fewn fframweithiau moesegol cryf. Golyga hyn bod rhaid i ni gymryd rhan mewn ymwybyddiaeth risg gadarnhaol, mabwysiadu protocolau lliniaru a phrotocolau risg allweddol sy'n lleihau bygythiadau ac sy'n grymuso ymchwilwyr ac arloeswyr y Brifysgol i wneud penderfyniadau gwybodus. Er mai academyddion sy'n gweithio ym meysydd pynciau STEM, technolegau defnydd deuol, technolegau datblygol a meysydd masnachol sensitif yw'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o fygythiadau posibl i eiddo deallusol, ymchwil sensitif a gwybodaeth bersonol, mae'r Polisi hefyd yn cwmpasu'r broses diwydrwydd dyladwy briodol y dylid ei dilyn i asesu addasrwydd unrhyw bartner ymchwil neu arloesi rhyngwladol, beth bynnag yw'r ddisgyblaeth neu'r maes ymchwil.

## 2. Diben

Mae'r Polisi wedi'i seilio'n uniongyrchol ar Egwyddorion Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy UKRI (2021)[1], yn ogystal â rhai y Ganolfan Diogelu Seilwaith Genedlaethol[2], sy'n nodi'r egwyddorion y dylid eu dilyn wrth gynnal cydweithrediadau ymchwil ac arloesi rhyngwladol. Lluniwyd yr egwyddorion hynny gan ymgynghori â'r gymuned ymchwil a chymuned y brifysgol a'u bwriad yw helpu'r sector ymchwil ac arloesi i gael y budd mwyaf o gydweithredu gwyddonol rhyngwladol gan ddiogelu eiddo deallusrwydd, ymchwil sensitif a gwybodaeth bersonol. Bwriad yr egwyddorion yw helpu ein hymchwilwyr, ein cyllidwyr a'n partneriaid ym myd diwydiant i fod â hyder mewn cydweithredu rhyngwladol ac i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y risgiau posibl hynny. Maent hefyd yn tynnu sylw at feysydd lle mae angen i ni gymryd camau priodol i ddiogelu ymchwil a staff rhag lladrad, camddefnydd neu gamfanteisio posibl.

[1] https://www.ukri.org/about-us/policies-standards-and-data/good-research-resource-hub/trusted-research-and-innovation/
[2] https://www.npsa.gov.uk/system/files/Trusted%20Research%20Guidance%20for%20Academia.pdf

## 3. Cwmpas

Dylid cynnal asesiad diwydrwydd dyladwy priodol i lunio barn wybodus am sefydlogrwydd partner. Dylai hwn fynd i'r afael â'r meysydd a amlinellir isod. Os nodir risg i ganfyddiadau'r prosiect a'r defnyddiau posibl, dylid gweithredu mesurau lliniaru rhesymol a chymesur yn unol â pharodrwydd PCYDDS i dderbyn risg cyn cytuno ar y cydweithrediad. Mae enghreifftiau o ffactorau y gellid eu hystyried wrth nodi risg wedi'u rhestru isod. Dylid cwblhau Rhestr Wirio Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy yn **Atodiad 1** fel asesiad cychwynnol sy'n cwmpasu'r meysydd risg hyn.

### 3.1 Fframwaith Cyfreithiol a Chysylltiadau

Mae angen dealltwriaeth o fframwaith cyfreithiol a chyfansoddiad y sefydliad partner a/neu'r wlad lle mae'n gweithredu, pwy y mae'n eiddo iddo ac a oes ganddo unrhyw gysylltiadau ffurfiol gydag endidau eraill megis busnesau eraill, adrannau'r llywodraeth neu'r fyddin. Os bydd unrhyw gysylltiadau'n achosi risg posibl i uniondeb y modd yr ymdrinnir â gwybodaeth neu allbynnau'r prosiect, yna dylid gweithredu mesurau lliniaru. Dylai hyn ystyried unrhyw rwymedigaethau sy'n gymwys o dan y Ddeddf Diogelwch a Buddsoddi Cenedlaethol.

### 3.2 Gwerthoedd

Mae'n bwysig deall gwerthoedd democrataidd a moesegol y wlad y mae'r partner wedi'i leoli ynddi a lle gallai'r rhain fod yn wahanol i'n rhai ni. Mae amrywiol adnoddau a allai gynorthwyo sefydliadau i adnabod risgiau posibl sy'n gysylltiedig â'r prosiect a phryd y gallai fod angen mesurau lliniaru, gan ddibynnu ar natur y prosiect a'r partneriaid dan sylw.

### 3.3 Gwrthdaro buddiannau

Mae sicrhau ymwybyddiaeth ar lefel unigol o bobl sy'n rhyngweithio gyda PCYDDS yn hanfodol i asesu risgiau posibl yn gysylltiedig â diogelwch. Dylid ymgymryd â diwydrwydd dyladwy priodol i nodi gwrthdaro buddiannau cyfredol neu bosibl a achosir gan unigolion a fydd â mynediad ffisegol a/neu rithwir i PCYDDS drwy gyflogaeth, astudiaeth, cydweithrediad, ymweliadau neu fynediad at ddata. Mae'r dangosyddion risg y dylid eu hystyried yn cynnwys a oes gan berson:

- Unrhyw gysylltiadau milwrol
- Cyflogaeth neu gysylltiadau eraill
- Unrhyw honiadau wedi'u cadarnhau o dorri uniondeb ymchwil neu safonau moesegol

### 3.4 Gweithgareddau ac Allbynnau Prosiectau

Mewn unrhyw gydweithrediad dylai pob partner gytuno'n ffurfiol ynghylch pryd y gellir gwneud data sy'n fasnachol berthnasol a/neu'n sensitif a/neu ganfyddiadau sy'n deillio o'r prosiect ar gael i'r cyhoedd. Dylid ystyried y gallu i fodloni'r gofyniad hwn wrth asesu addasrwydd partneriaid. Lle bo angen, gall fod yn briodol ceisio gwarchod yr ased gwybodaeth, gan gynnwys unrhyw eiddo deallusol, cyn ei gyhoeddi neu i gyhoeddi fersiwn lefel uchel yn ei le. Pan fydd penderfyniad yn cael ei wneud i gyhoeddi canfyddiadau ymchwil, dylai'r allbynnau gydymffurfio â pholisïau mynediad agored a rheoli data ymchwil PCYDDS.

### 3.5 Rheoli Data a Diogelwch

Mae tryloywder a bod yn agored yn hanfodol i lwyddiant ymchwil ac arloesi, heb hyn ni ellir gwireddu manteision gweithgarwch o'r fath yn llawn. Fodd bynnag, rhaid cydbwyso'r gofyniad hwn â'r angen i ddiogelu a rhannu gwybodaeth. Mae'n hanfodol felly bod ymchwilwyr yn fodlon y gellir dilyn mesurau cadarn PCYDDS ar reoli diogelwch gwybodaeth fel bod mynediad at ddata a gwybodaeth sensitif yn cael ei reoli'n briodol. Rhaid mynd i'r afael yn benodol â'r meysydd canlynol o bryder yng Nghynllun Rheoli Data Ymchwil y prosiect, ac ni fydd y partner yn bodloni'r trothwyon priodol os na ellir sicrhau'r rhain:

- **Seiberddiogelwch.** Rhaid dilyn polisïau diogelu data PCYDDS i sicrhau rheolaethau a diogelwch seiber.
- **Gwahanu Data**. Rhaid storio data sensitif yn ddiogel ac, os defnyddir llwyfan a rennir i gyfnewid gwybodaeth, dylid gwahanu data'n rhesymegol i leoliadau gwahanol, fel mai dim ond unigolion awdurdodedig sy'n gallu eu cyrchu.
- **Mynediad at Ddata.** Dylid rhoi mynediad at ddata sensitif dim ond i unigolion sydd ag angen clir am hynny, am y cyfnod y mae angen mynediad o'r fath. Dylid nodi'r sail ar gyfer trin a defnyddio'r data yn glir fel bod pob parti'n ei ddeall ac yn cytuno iddo cyn i wybodaeth gael ei rhannu. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol o unrhyw ddeddfwriaeth leol a allai fod yn berthnasol i bartneriaid tramor a allai ganiatáu i awdurdodau gael mynediad at wybodaeth sensitif heb ganiatâd gan bob parti.

### 3.6 Cyllid

Mae'n ofynnol i'r Brifysgol, yn ôl amodau cyllid grant, gael polisïau a phrosesau ar waith a chynnal diwydrwydd dyladwy priodol wrth ddarparu cyllid i sefydliadau trydydd parti. Pan fydd cyllid yn cael ei ddarparu i drydydd partïon sydd wedi'u lleoli dramor, mae'n rhaid i ni ddilyn Egwyddorion Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy UKRI, sydd ar gael ar y wefan ganlynol. https://www.ukri.org/about-us/policies-standards-and-data/good-research-resource-hub/trusted-research-and-innovation. Yn yr achosion hyn, rhaid i ymchwilwyr hefyd gwblhau 1) asesiad rheolaeth allforio a 2) Rhestr Wirio Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy PCYDDS. Efallai y bydd hefyd angen cynnal diwydrwydd dyladwy pan fyddwn yn derbyn cyllid gan sefydliadau trydydd parti, er enghraifft trwy is-ddyfarniad neu gytundeb cydweithio. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer cydweithredu â phartneriaid dramor nad oes gennym hanes blaenorol o weithio gyda nhw, neu mewn gwledydd â risgiau uwch (e.e. diogelwch neu lygredd).

### 3.7 Cymhwysiad Masnachol

Cyn i unrhyw weithgarwch ymchwil gychwyn, a chyn cymeradwyo prosiectau'n derfynol, dylai fod cytundebau cydweithredu ar waith i sicrhau bod data sensitif ac unrhyw asedau deallusol, yn cynnwys hawliau eiddo deallusol yn deillio o'r prosiect, yn cael eu rheoli'n briodol, yn enwedig lle bo potensial i allbynnau masnachol yn y dyfodol gael eu gwireddu a allai fod o fudd i gymdeithas a'r economi, gan gynnwys yn y DU.

### 3.8 Asedau Deallusol a Hawliau Eiddo Deallusol

Dylid rheoli'r asedau deallusol, gan gynnwys unrhyw eiddo deallusol yn deillio o'r prosiect, mewn ffordd broffesiynol ac effeithiol. Gallai hyn gynnwys penderfynu pryd

yw'r amser mwyaf priodol i geisio gwarchod eiddo deallusol sy'n deillio o'r prosiect, ac wedi hynny sut i fanteisio arno, ei drosglwyddo, ei drwyddedu neu ei ledaenu i gynyddu ei effaith i'r eithaf.

### 3.9 Rheolaethau Allforio

Lluniwyd rheolaethau allforio'r DU i gyfyngu ar allforio a throsglwyddo nwyddau technoleg neu strategol sensitif, gyda'r nod o atal lledaenu arfau dinistr torfol a gwrthsefyll bygythiadau rhyngwladol megis terfysgaeth. Mae'r rheolaethau yr un mor berthnasol i'r gymuned academaidd ag ydynt i unrhyw allforiwr arall, ac o safbwynt academaidd gallant gyffwrdd ag ystod o feysydd cyfnewid academaidd a allai alluogi trosglwyddo technoleg, naill ai ar lafar, yn gorfforol neu'n electronig. Gallai methu â chael trwydded i allforio nwyddau rheoledig (neu drosglwyddo gwybodaeth am dechnolegau rheoledig cysylltiedig) arwain at gyflawni trosedd. Gallai rheolaeth allforio gwmpasu'r gweithgareddau academaidd arferol canlynol:

- Ymchwil ar ran partner rhyngwladol
- Cydweithredu Rhyngwladol
- Cyflwyniadau mewn cynadleddau
- Allforio deunyddiau
- Addysgu
- Rhaglen gyfnewid academaidd gyda chydweithiwr mewn sefydliad dramor

Gweler yr arweiniad manwl ym Mholisi PCYDDS ar Reolaeth Allforio

## 4. Polisi: Gweithdrefn Diwydrwydd Dyladwy ar gyfer Ymchwil ac Arloesi Rhyngwladol

Mae diwydrwydd dyladwy'n golygu cynnal ymchwiliad rhesymol a chymesur i addasrwydd sefydliadau trydydd parti sy'n gydweithredwyr a/neu isgontractwyr posibl ar brosiectau ymchwil ac arloesi. Dylai lefel y diwydrwydd dyladwy fod yn gymesur â lefel y risg dan sylw, gan gydbwyso'r effaith ar y Brifysgol petai rhywbeth yn mynd o'i le yn erbyn costau lliniaru risgiau o'r fath. Gall diwydrwydd dyladwy gwmpasu'r meysydd canlynol:

| Llywodraethu a Rheoli | Gallu i Gyflawni | Sefydlogrwydd Ariannol |
|---|---|---|
| Llywodraethu | Perfformiad yn y gorffennol | Dichonoldeb ariannol |
| Twyll, llwgrwobrwyo, llygredd, gwyngalchu arian a chaethwasiaeth | Capasiti a gallu staff (niferoedd, record o lwyddo) | Rheolaeth Ariannol e.e. profiad o fod mewn tîm cyllid a gwahanu dyletswyddau |
| Rheolaethau mewnol | Seilwaith a rheoli rhaglen ar gyfer ymchwil | Cryfder archwilio mewnol ac allanol |
| Rheoli Risg | Monitro a rheoli | Gwerth am arian |
| Moeseg | Hyfforddiant | Polisïau, gweithdrefnau a systemau – yn cynnwys systemau TG |
| Prosesau Sicrwydd | Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Cyfrif banc ar wahân |
| Llywodraethu Ymchwil | Rheoli Data | Incwm o ffynonellau eraill |

| | | |
|---|---|---|
| | | – amrywiaeth ffrydiau incwm |
| Camymddwyn Gwyddonol | Bod yn agored a thryloywder Cyhoeddiadau | |

### 4.1 Diwydrwydd Dyladwy Sylfaenol

Amlinellir y weithdrefn diwydrwydd dyladwy sylfaenol yn **Atodiad 2**. Dylai ymchwilwyr, gan weithio gydag INSPIRE, ymgymryd â'r diwydrwydd dyladwy sylfaenol hwn mewn perthynas â phob partner ymchwil ac arloesi rhyngwladol posibl. Dylid ystyried y weithdrefn diwydrwydd dyladwy sylfaenol hefyd fel cam cychwynnol cyn gwneud cais, hyd yn oed os bydd angen y diwydrwydd dyladwy llawn a ddisgrifir isod yn y pen draw, fel y gellir nodi unrhyw broblemau posibl yn gynnar. Bydd INSPIRE yn cynghori pa gamau pellach sydd eu hangen, a allai gynnwys asesiad diwydrwydd dyladwy llawn neu asesiad risg pellach.

### 4.2 Diwydrwydd Dyladwy Llawn

Amlinellir y weithdrefn diwydrwydd dyladwy lawn yn **Atodiad 3**. Dylai ymchwilwyr, sy'n gweithio gydag INSPIRE, ymgymryd â'r weithdrefn diwydrwydd dyladwy lawn hon mewn perthynas â phob partner ymchwil posibl sydd wedi'i leoli dramor a fyddai'n derbyn mwy na £30,000 GBP dros gyfnod prosiect ymchwil. Rhaid ei gwblhau hefyd pan fydd y Weithdrefn Diwydrwydd Dyladwy sylfaenol cychwynnol a / neu'r Rhestr Wirio Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy yn nodi unrhyw feysydd pryder. Rhaid gwneud hyn beth bynnag yw lefel y cyllid dan sylw. Mae'r weithdrefn diwydrwydd dyladwy lawn yn seiliedig ar dempled Holiadur Diwydrwydd Dyladwy a baratowyd gan y Gymdeithas Rheolwyr a Gweinyddwyr Ymchwil (ARMA) y DU, a ariennir gan UKRI a Research England. Dylai ymchwilwyr weithio gyda sefydliadau partner i gwblhau'r Holiadur Diwydrwydd Dyladwy hwn, a dylid gwneud hyn cyn dyddiad dechrau'r grant ac unrhyw drosglwyddo cyllid. Mae canllawiau ar gyfer sefydliadau partner wedi'u cynnwys yn **Atodiad 4**.

### 4.3 Y Broses Diwydrwydd Dyladwy

Yn gyffredinol cynhelir y broses diwydrwydd dyladwy gyda chymorth gan INSPIRE. Rhaid i ymchwilwyr hysbysu INSPIRE cyn gynted â phosibl am unrhyw sefydliadau trydydd parti maen nhw'n ystyried gweithio gyda nhw i ganiatáu i hyn i ddigwydd Mae'n bwysig nodi nad mater o basio neu fethu yw diwydrwydd dyladwy. Os bydd pryderon yn codi, dylid uwchgyfeirio'r rhain i'r lefel briodol i asesu a oes ffyrdd o liniaru unrhyw risgiau a gwneud penderfyniad ynghylch a ddylid bwrw ymlaen.

### 4.4 Diwydrwydd Dyladwy Parhaus

Mae diwydrwydd dyladwy yn broses barhaus na ddylai ddod i ben unwaith y bydd dyfarniad wedi'i wneud. Os oes angen, bydd INSPIRE yn cynnal gwiriadau ariannol rheolaidd a bydd yn ofynnol i sefydliadau dramor ddarparu tystiolaeth i sicrhau bod cyllid a is-gontractiwyd yn cael ei ddefnyddio at y dibenion y'i dyfarnwyd, a bod gwariant a hawlir yn cydymffurfio â thelerau ac amodau'r grant. Caiff y rhain eu cwblhau mewn ffordd sy'n seiliedig ar risg gyda rhagor o wiriadau'n cael eu cynnal lle

mae'r risgiau'n uwch.   Mae'n rhaid i brosiectau gael prosesau priodol cyn y trosglwyddir arian i sefydliadau tramor, a allai gynnwys: gofyn i dderbyn anfonebau ffurfiol;  darparu prawf prynu; adroddiadau cynnydd rheolaidd; ac ati.  Dylem ystyried gosod gwiriadau pellach ar gyfer prosiectau neu sefydliadau risg uchel.

## 5. Monitro

Bydd y defnydd o'r Polisi a'i effeithiolrwydd yn cael ei fonitro gan Grŵp Rheoli INSPIRE a'i adrodd i'r Pwyllgor Ymchwil yn flynyddol.

## 6. Camddefnyddio'r Polisi

Ceisia'r Polisi ddiogelu'r Brifysgol a'i hymchwilwyr rhag torri gofynion cyfreithiol a rhwymedigaethau cyllido a allai godi yn sgil camddefnyddio eiddo deallusol, ymchwil sensitif a gwybodaeth bersonol, neu gamddefnyddio arian cyhoeddus. Mae'n diogelu pobl a seilwaith rhag lladrad, camddefnydd ac ecsploetio posibl, gan gynnwys o ganlyniad i ymyrraeth gan weithredwyr gelyniaethus  Mae hyn yn cynnwys rheolaethau cyfreithiol ar drosglwyddo gwybodaeth, technoleg, offer a meddalwedd sensitif. Gall camddefnyddio'r polisi arwain at gyflawni trosedd, o dan Ddeddf Diogelwch a Buddsoddi Cenedlaethol 2021, er enghraifft.

## 7. Cysylltiadau â pholisïau / gweithdrefnau eraill

### 7.1 Polisi PCYDDS ar Lywodraethu Data.

Mae Polisi'r Brifysgol ar Lywodraethu Data'n bodoli i sicrhau bod data perthnasol yn addas at y diben o adrodd yn fewnol ac yn allanol, a'u bod yn cael eu categoreiddio'n briodol i'w storio, eu hadalw, eu dinistrio, gwneud copi wrth gefn ohonynt a chael mynediad iddynt, yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau rheoli a diogelu data sefydliadol mewn modd priodol.  Mae'r Grŵp Llywodraethu Data yn gofalu am Lywodraethu Data ac mae'n atebol i'r Tîm Arweinyddiaeth Weithredol. Mae'r Grŵp Llywodraethu Data ar gael i nodi'r opsiynau mwyaf priodol a chost-effeithiol ar gyfer categoreiddio data, eu storio ac adrodd arnynt, gan ganiatáu defnyddio seilwaith ac offer sydd eisoes yn bodoli pan fo'n briodol. Dylid ymgynghori â'r Grŵp Llywodraethu Data i gael cyngor ac ymwybyddiaeth wrth ystyried rheoli data ar gyfer unrhyw brosiect ymchwil a gellir cyflawni hyn drwy gyflwyno cais i'r Ddesg Wasanaeth TG yn y lle cyntaf.

### 7.2 Polisi PCYDDS ar Reolaeth Allforio (Ymchwil ac Arloesi)

Mae Polisi PCYDDS ar Reolaeth Allforio yn darparu arweiniad ac adnoddau ar gyfer staff academaidd sy'n ymgymryd â gweithgarwch ymchwil ac arloesi a allai fod yn destun rheolaeth allforio, ac sy'n goruchwylio'r gweithgarwch hwnnw.  Mae angen rheolaethau allforio am amryw resymau, gan gynnwys diogelwch gwladol a rhwymedigaethau cytundebau rhyngwladol. Yn y DU, rheolir nwyddau a thechnoleg strategol gan y Cyd Uned Rheolaeth Allforio (ECJU), ac mae cydymffurfio â rheolaethau allforio yn rhwymedigaeth ddifrifol.  Diben rheolaethau cyfreithiol ar drosglwyddo technoleg, offer a meddalwedd sensitif yw rheoli'r risgiau o'r rhain yn cael eu camddefnyddio i ennyn

gwrthdaro, bygwch diogelwch gwladol, cefnogi terfysgaeth a throseddu, torri hawliau dynol a lledaenu Arfau Dinistr Torfol.

### 7.3 Y Polisi Moeseg ac Integredd Ymchwil.

Mae'r Polisi Moeseg ac Integredd Ymchwil yn mynegi ymrwymiad PCYDDS i safonau moesegol drwy nodi'r egwyddorion moesegol cyffredinol y mae'r Brifysgol yn gofyn i'w hymchwilwyr eu dilyn. Mae'r cod hefyd yn diffinio'r hyn a olygir wrth gamymddwyn mewn ymchwil a'r drefn i'w dilyn os bydd ymchwilwyr yn methu â bodloni safonau moesegol y Brifysgol.

### 7.4 Polisi Rheoli Data Ymchwil

Mae'r Polisi Rheoli Data Ymchwil hwn yn diffinio'r cyfrifoldebau ar lefel unigol a sefydliadol a ddylai arwain gwaith y rhai sy'n ymwneud â chasglu, curadu, storio a chynnal a chadw data ymchwil. Mae'n nodi ar ba sail y bydd staff a myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig y Brifysgol yn prosesu unrhyw ddata personol a gesglir oddi wrth destunau data wrth gynnal ymchwil, neu a ddarperir ar gyfer y rheini sy'n cynnal ymchwil gan destunau data neu ffynonellau eraill at yr un diben. Bydd y polisi hwn yn sicrhau y rheolir data ymchwil a gynhyrchir gan ei staff a'i myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn ôl y safonau uchaf gydol cylch oes y data ymchwil yn unol â deddfwriaeth berthnasol.

## 8. Rhagor o wybodaeth ac arweiniad defnyddiol

- Mae'r Awdurdod Diogelwch Amddiffynnol Cenedlaethol (NPSA) yn gweithio gyda phartneriaid yn y llywodraeth, yr heddlu, byd diwydiant a'r byd academaidd i leihau natur fregus y seilwaith cenedlaethol. Maent wedi gweithio gyda chyllidwyr ymchwil i lunio: Canllawiau ar Ymchwil Dibynadwy ar gyfer Academia | NPSA
- Mae Llywodraeth y DU yn darparu canllawiau defnyddiol ar reolaethau allforio yn ymwneud ag ymchwil academaidd: rheolaethau allforio sy'n berthnasol i ymchwil academaidd.
- Mae canllawiau Llywodraeth y DU yn nodi beth allai gyfrif fel trosglwyddo technoleg yng nghyswllt rheolaethau allforio. Dylid edrych ar y cyngor llawn yma: Allforio technoleg filwrol neu ddefnydd deuol: diffiniad a chwmpas
- Rhestrau Rheolaethau Allforio Strategol y DU sydd ar gael ar wefan Llywodraeth y DU yma: Rhestrau Rheolaethau Allforio Strategol y DU
- Mae gwybodaeth am embargos arfau ar gael yma: Sancsiynau masnach, embargos arfau a chyfyngiadau masnach eraill

## Atodiad 1. Rhestr Wirio Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy

### Manylion y Sefydliad

| Enw'r Sefydliad |
|---|
| |
| **Y wlad lle mae'r sefydliad wedi'i leoli:** |
| |
| **Rhif cofrestru ac enw'r corff cofrestru (enghreifftiau o gyrff cofrestru perthnasol yw'r llywodraeth, treth, corfforaeth, elusen, awdurdod addysg);** |
| |
| **Beth yw statws cyfreithiol y sefydliad? (er enghraifft: prifysgol gyhoeddus, prifysgol breifat, elusen, cwmni preifat, cwmni dielw, sefydliad ymchwil y llywodraeth, sefydliad ymchwil annibynnol) Nodwch y dyddiad sylfaen. Sylwer: Efallai y bydd yn ofynnol i ni ofyn am dystiolaeth o hyn yn ddiweddarach.** |
| |
| **Ydy eich sefydliad yn gysylltiedig ag unrhyw sefydliad arall? (h.y. ydy eich sefydliad yn gyfreithiol yn rhan o sefydliad mwy neu grŵp o sefydliadau mwy).** |
| |
| **Enw(au) ymchwilwyr yn y sefydliad a fydd yn gyfrifol am yr ymchwil ac arloesi cydweithredol** |
| |

| Ynglŷn â phartneriaid newydd | |
|---|---|
| **Pam mae partner eisiau gweithio gyda chi?** | |
| **Beth mae'r partner yn ei ddisgwyl yn gyfnewid am ei gymorth ariannol neu'i gyfranogiad?** | |
| **A yw'r sefydliad yn gysylltiedig â gwlad y gellid ei hystyried yn** | |

| | |
|---|---|
| **elyniaethus i'r DU neu'n un sydd â gwerthoedd democrataidd a moesegol gwahanol i'n rhai ni?** | |
| **A yw diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â'r partner wedi nodi unrhyw ran mewn ymchwil ar ran y fyddin neu'r heddlu sydd â chysylltiadau â gwladwriaeth elyniaethus?** | |
| **Yng nghyd-destun unrhyw wybodaeth a gafwyd o'r diwydrwydd dyladwy, a ellid camddefnyddio eich ymchwil neu a allai gael ei gymhwyso mewn ffyrdd nas fwriadwyd a fyddai'n negyddol?** | |
| **A oes unrhyw gyfyngiadau cyfreithiol neu reoleiddiol ynghylch ymgymryd â'ch ymchwil gyda'r partner hwn, neu gyfyngiadau'n deillio o bolisi'r brifysgol?** | |
| **Ar ôl ystyried yr atebion i'r cwestiynau uchod, a oes risgiau posibl i'ch enw da chi neu'r brifysgol neu risgiau moesegol posibl?** | |

| **Ynglŷn â pherthnasoedd ymchwil** | |
|---|---|
| **A yw telerau unrhyw Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig (MoU) yn unol â disgwyliadau eich adran a'r brifysgol?** | |
| **Ydych chi'n darparu eiddo deallusol sy'n bodoli eisoes, data ymchwil, data cyfrinachol neu bersonol adnabyddadwy i'r prosiect? Os felly, sut y bydd hyn yn cael ei ddiogelu?** | |
| **Pwy fydd yn berchen ar unrhyw Eiddo Deallusol a gynhyrchir?** | |

| | |
|---|---|
| **A oes gennych unrhyw gynlluniau ar waith i ddiogelu'r eiddo deallusol sy'n deillio o hyn?** | |
| **Pa ofynion contractiol allwch eu rhoi ar waith i ddiogelu buddiannau eich sefydliadau academaidd?** | |
| **Pa fynediad fydd gan y partner ymchwil i'ch rhwydwaith TG? Os bydd gan y partner fynediad, pa welededd ehangach allai hyn ei roi?** | |
| **A oes angen unrhyw wahanu corfforol neu amddiffyniad rhwng ymchwil mewn meysydd tebyg?** | |

| **Ynglŷn â phartneriaid presennol** | |
|---|---|
| **A fyddai bwrw ymlaen â'r ymchwil yn codi gwrthdaro buddiannau posibl gyda phartneriaid ymchwil presennol?** | |
| **Ydych chi wedi siarad â'ch partneriaid presennol am unrhyw wrthdaro buddiannau posibl?** | |
| **Ydych chi wedi ystyried telerau unrhyw gytundebau dim datgelu? A yw hyn yn cynnwys disgwyliad y bydd angen i chi ddarparu gwelededd i bartneriaid presennol?** | |
| **A fydd yr ymchwil hwn yn torri unrhyw gytundebau contractiol presennol sydd gennych chi, eich adran neu'r brifysgol eisoes?** | |

**Cwblhawyd gan:** **Dyddiad:**

## Atodiad 2. Y Weithdrefn Diwydrwydd Dyladwy Sylfaenol

Dylid ystyried y camau canlynol:

a) Gwiriwch gydag INSPIRE i weld a ydym wedi cynnal diwydrwydd dyladwy ar y sefydliad hwn o'r blaen (er os gwnaed hynny fwy na 3 blynedd yn flaenorol, ystyriwch a oes angen gwneud hyn eto).
b) Os yw'n sefydliad anghyfarwydd ceisiwch siarad â chydweithwyr o fewn y Brifysgol ac o bosibl y tu allan i weld beth fu eu profiadau nhw.
c) Casglwch unrhyw wybodaeth sydd gennych am y sefydliad, a phenderfynu sut y daethant i gael eu dynodi'n ddarpar bartner.
d) Gwnewch chwiliad ar-lein am y sefydliad, eu gwefan swyddogol ac unrhyw straeon newyddion. Dylai hyn roi syniad o'r gweithgareddau yn y sefydliad ac unrhyw straeon newyddion da neu ddrwg. Gallai hefyd roi tystiolaeth o brosiectau eraill y mae'r sefydliad wedi bod yn rhan ohonynt, a datgelu a oes ganddynt y capasiti i gyflawni'r ymchwil angenrheidiol a/neu ddarparu'r gwasanaethau perthnasol.
e) Adolygwch eu hadroddiad blynyddol, a ddylai roi syniad o'u hyfywedd ariannol, ac o bosibl fanylion sefydliadau eraill maent wedi gweithio gyda nhw o'r blaen.
f) Gofynnwch i'r sefydliad naill ai'n uniongyrchol neu drwy'r academydd(ion) sy'n rhan o'r prosiect a ydynt wedi cwblhau diwydrwydd dyladwy tebyg ar gyfer unrhyw sefydliadau AU eraill yn y DU neu endidau eraill, ac os felly, a ydynt yn gallu darparu manylion.
g) Gwiriwch y mynegai llygredd ar gyfer y wlad lle mae'r sefydliad wedi'i leoli. Gellir dod o hyd i hwn yn y Mynegai Canfyddiadau Llygredd, ac mae'n rhoi arwydd defnyddiol o lefel y llygredd yn y wlad dan sylw, ac felly gallai gynyddu'r lefelau risg o ran cyllid sy'n mynd i sefydliadau yn y gwledydd hyn.
h) Gwiriwch restrau sancsiynau y DU a'r Cenhedloedd Unedig a gwefan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) am wybodaeth am wledydd unigol, risgiau allweddol ac i dynnu sylw at pan fydd is-gontractio gyda sefydliad yn y wlad yn anghyfreithlon neu'n risg rhy uchel.
i) Cynhaliwch adolygiad Dunn a Bradstreet (bydd hwn yn cyflawni nifer o'r gwiriadau gan gynnwys nodi unrhyw Bobl sydd wedi'u penodi i swydd wleidyddol).

## Atodiad 3. Gweithdrefn Diwydrwydd Dyladwy Lawn

Dylai'r Holiadur hwn gael ei gwblhau gan bob sefydliad tramor sy'n gweithio gyda PCYDDS fel cydweithwyr neu is-gontractwyr ar brosiectau ymchwil lle byddent yn derbyn mwy na £30,000 GBP o gyllid dros gyfnod y prosiect ymchwil. Rhaid ei chwblhau hefyd pan fydd y Weithdrefn Diwydrwydd Dyladwy sylfaenol gychwynnol a / neu'r Rhestr Wirio Ymchwil ac Arloesi Dibynadwy yn nodi unrhyw feysydd pryder. Rhaid gwneud hyn beth bynnag yw lefel y cyllid dan sylw.

Mae'r Holiadur hwn a'r Canllawiau cysylltiedig yn seiliedig ar dempled a ddatblygwyd gan y Gymdeithas Rheolwyr a Gweinyddwyr Ymchwil (ARMA) y DU ar ran UKRI. Mae ofynnol i ni yn ôl ein hamodau cyllido i ymgymryd â'r gwiriadau hyn. Rhaid cwblhau'r ffurflen hon ac unrhyw atodiadau yn Gymraeg neu Saesneg.

**Nodyn 1:** Mae UKRI bellach wedi cyflwyno holiadur diwydrwydd dyladwy syml i'w ddefnyddio wrth gynnal diwydrwydd dyladwy ar brifysgolion sy'n canolbwyntio ar ymchwil mewn gwledydd datblygedig, fel bod y gwiriadau yn unol â'r rhai a wneir gan UKRI ar y prifysgolion UKRI cyfatebol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â thelerau ac amodau grant UKRI. Bydd INSPIRE yn cynghori a ddylid defnyddio'r holiadur diwydrwydd dyladwy syml.

**Nodyn 2.** Mae UKRI hefyd wedi cyflwyno holiadur diwydrwydd dyladwy manylach i'w ddefnyddio yn ychwanegol at yr holiadur diwydrwydd dyladwy safonol pan fo risg uchel y bydd arian yn cael ei ddefnyddio at ddibenion anghyfreithlon neu lle bo risg uchel o weithgarwch terfysgol (gweler gwefan y Swyddfa Dramor, y Gymanwlad a Datblygu (FCDO) i ddynodi hyn).

**Holiadur Diwydrwydd Dyladwy**

Bydd Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant (y sefydliad) yn cadw'r wybodaeth hon ar gofnod at ddibenion rheoli risg a chydymffurfiaeth. Gellir rhannu'r wybodaeth â staff, cynghorwyr proffesiynol, partneriaid, archwilwyr, rheoleiddwyr a chyllidwyr fel y bo'n ofynnol wrth gyflawni a sicrhau diwydrwydd dyladwy yn gysylltiedig â'r prosiect hwn neu brosiectau ymchwil eraill lle rydym yn cydweithio â chi.

[ ] **Rydw i/Rydym ni'n** cadarnhau bod gennyf/gennym yr awdurdod i gyflwyno'r ffurflen hon ar ran fy sefydliad*

[ ] **Rydw i/Rydym ni'n** cadarnhau fy mod i/ein bod ni'n cydsynio y gellir defnyddio'r wybodaeth a gyflwynir at y dibenion a nodir uchod*

[ ] **Rydw i/Rydym ni'n** cadarnhau bod yr holl wybodaeth a gofnodir yn gyflawn ac yn gywir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred/ein gwybodaeth a'n cred, ar ôl gwneud ymholiadau rhesymol*

Mae'n bosibl y bydd y sefydliad yn cael ceisiadau am fynediad at y wybodaeth hon gan sefydliadau ymchwil y DU a chyllidwyr ymchwil sy'n ystyried partneru â chi. Cadarnhewch a ydych yn hapus i'r wybodaeth gael ei rhannu at y dibenion ychwanegol hyn.

[ ] **Rydw i/Rydym ni'n** cadarnhau y gellir rhannu'r wybodaeth at y dibenion ychwanegol hyn

[ ] **Nid ydw i/nid ydym ni** yn dymuno i'r wybodaeth gael ei rhannu at y dibenion ychwanegol hyn

Os na fyddwch yn rhoi caniatâd, byddwn yn cyfeirio unrhyw bartïon sy'n gofyn am fynediad i gysylltu â chi'n uniongyrchol.

Ni fydd y wybodaeth yn cael ei rhannu gyda thrydydd partïon at unrhyw ddiben arall heb eich caniatâd ymlaen llaw.

Cytunwyd ar ran ________________________________________

gan Lofnodwr 1:

| Llofnod | Enw | Rôl | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |

Llofnodwr 2 (os yw'n berthnasol):

| Llofnod | Enw | Rôl | Dyddiad |
|---|---|---|---|
| | | | |

*gofynnol

## ADRAN A: MANYLION Y SEFYDLIAD

Mae’r adran hon yn ymwneud â’r sefydliad cyfan. Rhowch wybodaeth sy’n ymwneud â strwythurau a phrosesau cyffredinol eich sefydliad.

### 1. Llywodraethu Sefydliadol

| | |
|---|---|
| a) Enw’r Sefydliad: | |
| b) Cyfeiriad cofrestredig: | |
| c) Y wlad lle mae’r sefydliad wedi’i leoli: | |
| d) Rhif cofrestru ac enw’r corff cofrestru (enghreifftiau o gyrff cofrestru perthnasol yw’r llywodraeth, treth, corfforaeth, elusen, awdurdod addysg); | |
| e) Beth yw statws cyfreithiol y sefydliad? (er enghraifft: prifysgol gyhoeddus, prifysgol breifat, elusen, cwmni preifat, cwmni dielw, sefydliad ymchwil y llywodraeth, sefydliad ymchwil annibynnol) | |
| f) Ydy eich sefydliad yn gysylltiedig ag unrhyw sefydliad arall? (Ydy eich sefydliad yn gysylltiedig ag unrhyw sefydliad arall mewn cymhwyster swyddogol neu’n rhannu unrhyw strwythurau llywodraethu gyda sefydliad arall.) Os ydy, rhowch fanylion. | |
| g) Rhowch enw a rôl/teitl swydd pennaeth y Sefydliad (er enghraifft Prif Swyddog Gweithredu / Prif Weithredwr / Pennaeth) | |
| h) Rhowch enw’r prif berson cyswllt ar gyfer materion yn gysylltiedig ag ymchwil, a all roi rhagor o wybodaeth os oes angen, a manylion ei rôl yn y sefydliad (er enghraifft y Cyfarwyddwr Ymchwil a/neu Gyllid, neu lefarydd dynodedig). | |

## 2. Polisi, Prosesau a Gweithdrefnau

Disgrifiwch sut mae eich sefydliad yn rheoli'r materion canlynol. Efallai bod gennych bolisi ar gyfer pob un neu rai o'r meysydd hyn, ac os felly cyflwynwch ef. Os nad yw eich polisïau a'ch gweithdrefnau sefydliadol yn cyfateb i'r categorïau penodol hyn, disgrifiwch y prosesau rydych chi'n eu dilyn sydd yn cyfateb orau neu sy'n fwyaf perthnasol i'r meysydd a restrir.

Dylech gynnwys sut mae staff yn cael gwybod am eich dull gweithredu a pha mor aml mae polisïau, prosesau a/neu weithdrefnau eich sefydliad yn cael eu hadolygu.

| | Ymateb |
|---|---|
| a) **Gwrth-dwyll, llygredd a llwgrwobrwyo / chwythu'r chwiban** - Mae hyn yn cyfeirio at systemau adrodd am gamweddau mewn ymchwil | |
| b) **Teithio a chynhaliaeth** - Sut mae teithio'n cael ei drefnu – drwy'r sefydliad neu'n bersonol? A oes gennych bolisi sy'n cynnwys cyfraddau derbyniol ac arweiniad i deithwyr? Os oes, rhowch gopi/dolen | |
| c) **Gwrthdaro buddiannau** - Mae hyn yn cyfeirio at unrhyw un sy'n debygol o elwa'n bersonol neu unrhyw un â pherthnasau agos neu ffrindiau sy'n debygol o elwa'n ariannol o weithgareddau ymchwil arfaethedig, er enghraifft trwy is-gontractau | |
| d) **Atal Niwed / Diogelu** - Mae hyn yn cyfeirio at ddiogelu'r holl gyfranogwyr ymchwil, yn enwedig plant dan 18 oed ac oedolion agored i niwed, rhag cael eu niweidio ac mae'n rhoi manylion ymateb priodol pan fydd niwed yn digwydd. Mae diogelu'n cwmpasu camfanteisio, cam-drin ac aflonyddu rhywiol a mathau ehangach o drais, cam-drin ac aflonyddu ar gyfranogwyr ymchwil, cymunedau a staff ymchwil | |
| e) **Iechyd a Diogelwch** - Sut ydych chi'n lleihau'r risg o anaf corfforol i unrhyw un sy'n ymwneud â phrosiect ymchwil | |
| f) **Rheoli Risg** - Gallai hyn gynnwys risg teithio, risg ariannol, risg i enw da ac ati. | |
| g) **Moeseg** - Sut rydych chi'n sicrhau gofal priodol i gyfranogwyr dynol neu anifeiliaid mewn prosiectau ymchwil a chydymffurfio â deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol eraill. A oes gan eich sefydliad Bwyllgor Moeseg? | |
| h) **Staff** - Beth yw eich prosesau ar gyfer recriwtio staff, ac a yw'r rhain yn cydymffurfio â deddfau llafur lleol a Deddf | |

| | | |
|---|---|---|
| | Caethwasiaeth Fodern y DU? Gweler yr eirfa a'r Cwestiynau Cyffredin am ragor o wybodaeth am hyn | |
| i) | **Gweithdrefnau Ariannol** - Mae hyn yn cyfeirio at ddirprwyo awdurdod i gymeradwyo gwariant, a chyfrifoldebau am reoli incwm a gwariant ymchwil. | |
| j) | **Uniondeb Ymchwil / Camymddwyn mewn Ymchwil** – Arfer ymchwil da a pha broses a ddilynir pan fydd unigolyn yn peidio â chadw at arferion derbyniol, yn fwriadol neu'n esgeulus | |
| k) | **Rheoli data ymchwil a diogelu data** - Sut ydych chi'n diogelu/rheoli data personol a chyfrinachol a gasglwyd yn ystod prosiect ymchwil? | |
| l) | **Caffael** - Pa reolau/prosesau y mae'n rhaid i chi eu dilyn wrth brynu? e.e. offer neu ddefnyddiau eraill, sy'n angenrheidiol ar gyfer cynnal prosiect ymchwil | |

### 3. Ymateb i risgiau yn gysylltiedig â chamymddwyn, gan gynnwys twyll

Mae'r adran hon yn ymwneud â deall prosesau eich sefydliad ar gyfer datrys materion yn ymwneud â chamymddwyn a nodi unrhyw feysydd risg a all effeithio ar gyflawni prosiectau ymchwil er mwyn cynllunio datrysiadau priodol.

Os gofynnir am wybodaeth yn gysylltiedig â'r tair blynedd diwethaf, gall hyn olygu blynyddoedd calendr, blynyddoedd ariannol, blynyddoedd academaidd, neu debyg. Gallwch ddarparu gwybodaeth am y cyfnodau blynyddol y mae eich sefydliad fel arfer yn adrodd arnynt.

| | | Ymateb |
|---|---|---|
| a) | A fu unrhyw achosion o dwyll neu gamddefnyddio arian prosiect ar draws y sefydliad yn ystod y tair blynedd diwethaf? Ac os felly, a wnewch chi ddweud wrthym sut y deliwyd â hyn? | |
| b) | Yn ystod y tair blynedd diwethaf a yw'r sefydliad:<br>i. wedi wynebu unrhyw hawliadau neu anghydfodau gan gydweithwyr yn gysylltiedig â phrosiectau ymchwil<br>ii. wedi gorfod ad-dalu unrhyw gronfeydd ymchwil<br>iii. wedi cael contract ymchwil wedi'i derfynu'n gynnar lle roedd y sefydliad ar fai?<br>Os atebwyd ydy i unrhyw rai o'r uchod, rhowch fanylion y mater(ion) a sut y cawsant eu datrys. | |

| | |
|---|---|
| c) A yw'r sefydliad yn cymryd rhan ar hyn o bryd, neu'n disgwyl cymryd rhan, mewn unrhyw achos cyfreithiol a allai effeithio ar gyflawni amcanion y prosiect neu arwain at niwed i enw da'r sefydliad a/neu'r unigolion sy'n ymwneud â'r prosiect? | |
| d) A oes unrhyw aelod o uwch staff y sefydliad (ers iddynt gael eu cyflogi yn y sefydliad hwn neu tra'n gweithio i sefydliad blaenorol) wedi bod, neu wedi'u hamau o fod, yn rhan o unrhyw un o'r canlynol yn ystod y tair blynedd diwethaf?<br>i. twyll<br>ii. camymddwyn ariannol<br>iii. camymddwyn gwyddonol<br>iv. llwgrwobrwyo neu lygredd<br>Os atebwyd oes i unrhyw rai o'r uchod, sut cafodd y sefydliad wybod am yr honiad?<br>Os cafodd yr honiad ei gadarnhau, a allwch ddweud wrthym sut y deliwyd â hyn? | |
| e) A allwch roi enw'r prif berson cyswllt a fydd yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth os oes angen, a manylion ei rôl yn y sefydliad? | |

## 4. Rheoli is-gontractau

| | |
|---|---|
| 4.1. A allech amlinellu unrhyw ddiwydrwydd dyladwy rydych chi'n ei gynnal ar eich is-gontractwyr i asesu eu haddasrwydd i gyflawni'r gwaith sy'n ofynnol? *Sylwer: Gall hyn fod yn bolisi penodol neu fel arall, yn disgrifio eich dull o recriwtio a rheoli is-gontractwyr* | |
| 4.2. A wnewch chi roi enw'r prif berson cyswllt a fydd yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth os oes angen, a manylion ei rôl yn y sefydliad | |

## 5. Y gallu i gyflawni: gweinyddu grantiau

| | **Ymateb** |
|---|---|
| a) A wnewch chi roi amlinelliad byr o'r tri phrosiect ymchwil mwyaf (yn ôl gwerth ariannol i'r sefydliad) y mae eich sefydliad yn gweithio arnynt ar hyn o bryd neu yn ddiweddar (yn ystod y tair blynedd diwethaf). | |

| | | |
|---|---|---|
| b) | Sut mae gweinyddu grantiau ymchwil yn cael ei drefnu yn y sefydliad? | |
| c) | A oes gan eich sefydliad bolisi neu strategaeth ar gyfer datblygu ymchwilwyr? Os oes, pwy sy'n gyfrifol am weinyddu neu gyflawni hyn? | |
| d) | Pwy sydd â chyfrifoldeb cyffredinol dros reoli grantiau ymchwil ar draws y sefydliad? Gallai hyn fod yn unigolyn neu'n grŵp dynodedig megis swyddfa ymchwil. | |
| e) | Sut ydych chi'n monitro cyllid ar gyfer prosiectau unigol ar wahân i weddill y sefydliad? e.e. a fydd hwn yn rhif prosiect penodol / cyfrif banc ar wahân? | |
| f) | Bydd yn ofynnol i chi gadw at ofynion adrodd cyllidwyr ar gyfer prosiectau unigol. Gallai hyn gynnwys rhestrau trafodion manwl chwarterol ar gyfer yr holl wariant yr aethpwyd iddo gan ddefnyddio arian grant, derbynebau wedi'u sganio ar gyfer trafodion, a thystiolaeth o'r nifer o oriau staff a weithiwyd ar y prosiect. Ydych chi'n gallu cydymffurfio â'r gofynion adrodd hyn os oes angen? | |
| g) | Sut bydd nifer yr oriau staff a weithir ar grantiau ymchwil yn cael eu dangos i sicrhau bod staff wedi gweithio fel y nodwyd ar geisiadau grant? | |
| h) | A allwch roi enw'r prif berson cyswllt a fydd yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth os oes angen, a manylion ei rôl yn y sefydliad? Gallai hyn fod yn unigolyn neu'n swyddfa ddynodedig. | |

## 6. Y gallu i gyflawni: cyllid

| | | |
|---|---|---|
| **a)** | Rhowch gopïau o'r adroddiadau ariannol am y tair blynedd diwethaf neu ddolen i'r dudalen ar y we lle maent wedi'u cyhoeddi, os ydynt ar gael. | |
| **b)** | A oes gan y sefydliad gyfrif banc yn enw'r sefydliad, sy'n gallu derbyn arian grant mewn punnoedd GBP? | OES/NAC OES |

| | | |
|---|---|---|
| **c)** | A yw'r sefydliad yn gallu talu is-gontractwyr sydd wedi'u lleoli y tu allan i'ch gwlad eich hun? | YDY / NAC YDY |
| **d)** | A oes angen caniatâd ymlaen llaw ar y sefydliad gan gorff neu lywodraeth arall er mwyn derbyn a/neu dalu arian sy'n ymwneud â phrosiectau ymchwil? | OES/NAC OES<br><br>Os oes, rhowch fanylion yr amgylchiadau lle bo hyn yn berthnasol, y broses a'r llinell amser ar gyfer awdurdodi. |
| **e)** | Sut ydych chi'n rheoli risgiau cyfnewid arian tramor pan mae'r incwm mewn arian cyfred gwahanol i'r gwariant? | |
| **f)** | A oes gan y sefydliad swyddogaeth archwilio fewnol? | OES/NAC OES |
| **g)** | A yw'r sefydliad wedi bod yn destun unrhyw archwiliadau mewnol/allanol ar reoli ymchwil ariannol wedi dyfarniad o fewn y tair blynedd diwethaf? YDY/NAC YDY Os na, pryd oedd y tro diwethaf i archwiliad mewnol neu allanol gael ei gynnal, a gan bwy? | |
| **h)** | A oes gan y sefydliad yswiriant atebolrwydd cyhoeddus sy'n cwmpasu gwaith yn ymwneud â phrosiectau ymchwil ar ariennir yn allanol, ac i ba werth neu derfyn? | OES/NAC OES<br><br>Os oes, rhowch y dyddiad dod i ben a manylion y broses adnewyddu os yw'n berthnasol. |
| **i)** | A oes gan y sefydliad yswiriant indemniad proffesiynol sy'n ymestyn y tu hwnt i oes y prosiect, ac i ba werth neu derfyn? | OES/NAC OES |
| **j)** | Rhowch enw'r prif berson cyswllt a fydd yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth os oes angen, a manylion ei rôl yn y sefydliad. | |

## 7. Gwybodaeth benodol i wlad

| | | |
|---|---|---|
| 7.1 | A oes unrhyw ofynion lleol, rhanbarthol, cenedlaethol a allai effeithio ar y prosiect e.e. rheolaethau mewnforio, moeseg, trwydded ymchwil ac ati? | OES/NAC OES<br><br>Os oes, disgrifiwch nhw. |
| 7.2 | A oes unrhyw ffioedd neu daliadau allanol y byddai angen i'r sefydliad eu talu er mwyn gallu cynnal prosiectau ymchwil a ariennir yn allanol? e.e. ffioedd am adolygiad moesegol, atal treth a thrwyddedau. | OES/NAC OES<br><br>Os oes, rhowch fanylion. |

**ADRAN B: MANYLION Y PROSIECT**

Mae'r adran hon yn ymwneud â'r prosiect ymchwil dan sylw yn unig. Atebwch y cwestiynau hyn gyda gwybodaeth sy'n benodol i'r ffordd y bydd y prosiect yn cael ei reoli.

## 1. Llywodraethu'r Prosiect

| | Ymateb |
|---|---|
| 1.1. Disgrifiwch y trefniadau llywodraethu a rheoli prosiect sy'n benodol i'r prosiect hwn, gan gynnwys enwau a rolau'r unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol am reolaeth academaidd a rheolaeth gweinyddol, os ydynt yn wahanol. Dylech gynnwys sut mae gwariant y prosiect yn cael ei awdurdodi, ei brosesu a'i dalu, a phwy sy'n gyfrifol ar bob cam. | |
| 1.2. A allwch roi enwau a rolau'r gweithwyr allweddol canlynol sy'n benodol i'r prosiect hwn, yn cynnwys e-bost a rhif ffôn?<br>i. Pobl sy'n gyfrifol am reoli ac adrodd ariannol<br>ii. Prif gyswllt cyfreithiol<br>iii. Rheolwr y prosiect os yw'n berthnasol (neu gymorth gweinyddol arall ar gyfer y prosiect) | |
| 1.3. Nodwch unrhyw drydydd parti/is-gontractwyr fydd yn derbyn arian o'r grant hwn a'r swm fydd yn cael ei dalu i bob un. | |
| 1.4. Rhowch fanylion am unrhyw wrthdaro buddiannau gan staff allweddol, neu unrhyw rai o'u teulu neu bobl sy'n byw yn yr un cartref, a sut y bydd hyn yn cael ei reoli. | |
| 1.5. Pa adolygiad moesegol fydd y prosiect hwn yn atebol iddo? | |
| 1.6. Camymddwyn mewn ymchwil – a oes unrhyw rai o'r staff allweddol wedi bod yn destun ymchwil i gamymddwyn mewn ymchwil lle mae'r honiadau wedi cael eu cadarnhau? | |
| 1.7. A oes unrhyw rai o'r staff allweddol wedi cael cyhoeddiadau wedi'u tynnu'n ôl? | OES/NAC OES Os oes, rhowch resymau |

| | |
|---|---|
| 1.8. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill neu a oes rhywbeth arall rydych chi'n teimlo y dylai UKRI fod yn ymwybodol ohono? | |

**Rhestr Wirio Dogfennau**

Cwblhewch y tabl hwn i ddangos a ydych wedi cynnwys y ddogfennaeth sy'n ofynnol yn rhan o'r asesiad hwn.

Os na allwch ddarparu dogfennau penodol (er enghraifft polisi nad yw'n bodoli yn eich sefydliad) nodwch beth yw'r rheswm am hyn.

| **Dogfen** | **Yn amgaeedig** | | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|
| | **Y** | **N** | |
| Tystiolaeth o statws cyfreithiol | | | |
| Siart sefydliadol | | | |
| Polisi gwrth-dwyll, llygredd a llwgrwobrwyo | | | |
| Polisi teithio a chynhaliaeth | | | |
| Polisi gwrthdaro buddiannau | | | |
| Polisi Diogelu/Atal Niwed | | | |
| Polisi Iechyd a Diogelwch | | | |
| Polisi Rheoli Risg | | | |
| Polisi Moeseg | | | |
| Polisi Recriwtio a Dewis | | | |
| Gweithdrefnau Ariannol | | | |
| Polisi Integredd Ymchwil / Camymddwyn | | | |

## Atodiad 4 Canllawiau ar yr Holiadur Diwydrwydd Dyladwy

Diwydrwydd Dyladwy yw'r arfer gofal neu'r ymchwiliad y disgwylir i fusnes neu unigolyn rhesymol ei gynnal cyn ffurfio unrhyw gytundeb neu gontract gyda pharti arall. Mae'n cefnogi gwneud penderfyniadau da – deall costau, buddion a risgiau.

Mae'r holiadur hwn wedi'i lunio i helpu hwyluso partneriaethau llwyddiannus. Trwy ddeall y ffordd mae pob un ohonom yn gweithio, gallwn helpu ein gilydd drwy gydol y prosiect. Mae hefyd yn sicrhau bod pob parti'n gallu bodloni gofynion y cyllidwyr a derbyn telerau ac amodau'r grant. Gan fod cyllidwyr yn ei gwneud yn ofynnol i'w telerau ac amodau gael eu rhaeadru i bawb sy'n ymwneud â'r prosiect, mae'n bwysig bod partneriaid y prosiect yn deall yr hyn sy'n ofynnol cyn i'r prosiect ddechrau.

Mae'r holiadur yn rhoi dull cyson i bob arweinydd prosiect ar gyfer cynnal Diwydrwydd Dyladwy, gyda'r nod o leihau'r baich gweinyddol i bawb sy'n gysylltiedig.

Mae'n bwysig sylweddoli na fydd efallai'n bosibl bob amser i ateb pob cwestiwn, ac nad yw diffyg polisïau neu brosesau'n golygu nad yw'r prosiect a'r bartneriaeth yn gallu mynd yn eu blaen, ond yn hytrach mae'n caniatáu i'r partïon gynnal trafodaeth ynghylch sut y caiff rhai elfennau eu rheoli.

Efallai na fydd yn briodol defnyddio'r set lawn o gwestiynau ar gyfer pob partner a gallwch ddewis defnyddio llai o gwestiynau o'r set, gan ystyried natur y partner, gwerth y prosiect ymchwil a gynllunnir a'r risgiau asesedig.

Datblygwyd yr holiadur hwn yn rhan o brosiect a arweiniwyd gan y Gymdeithas Rheolwyr a Gweinyddwyr Ymchwil (ARMA) UK, a ariennir gan Research England a UK Research & Innovation.

### Pwy ddylai gwblhau'r ffurflen hon?

Dylai'r ffurflen hon gael ei chwblhau gan staff cyfreithiol, ariannol, rheoli ymchwil a/neu rheoli cydymffurfiaeth/risg o fewn eich sefydliad. Dylid enwebu un unigolyn i fod yn brif berson cyswllt ar gyfer y ffurflen hon (rhag ofn bod unrhyw gwestiynau) a hefyd i gael yr awdurdod i lofnodi'r ffurflen hon ar ôl ei chyflwyno er mwyn cadarnhau ei chywirdeb.

### Sut dylid cwblhau'r ffurflen hon?

Dylid cwblhau'r ffurflen hon, yn Gymraeg/Saesneg, hyd eithaf eich gwybodaeth a darparu'r ddogfennaeth berthnasol y gofynnir amdani. Os nad ydych yn gallu ymateb i gwestiynau penodol neu ddarparu dogfennau yn Gymraeg/Saesneg, cysylltwch â'r Arweinydd yn y DU am ragor o gymorth ac arweiniad.

### Beth os oes gennyf unrhyw gwestiynau?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â sut i gwblhau'r Holiadur Diwydrwydd Dyladwy, cysylltwch â'r sefydliad arweiniol yn y DU drwy e-bost.

## Adran A: Manylion y Sefydliad

### 1. Llywodraethu Sefydliadol

Rydym eisiau deall pa fath o sefydliad ydych chi, pa mor hir rydych wedi bod yn gweithredu ac a oes gennych gysylltiad ffurfiol ag unrhyw sefydliadau eraill. Mae hyn yn cynnwys unrhyw gysylltiadau blaenorol lle gallai partner ffurfiol fod â dylanwad sylweddol o hyd dros eich sefydliad neu fod â lefel uchel o fynediad at eich sefydliad a'i ymchwil neu staff. Rydym yn awyddus i ddeall sut rydych wedi'ch cofrestru a gyda phwy. Gall dogfennau ategol perthnasol gynnwys eich dogfennau cofrestru ac unrhyw Femorandwm neu Erthyglau Cymdeithasu. Rydym yn awyddus i ddeall sut mae eich sefydliad wedi'i strwythuro a beth yw'r prosesau penderfynu.

### 2. Polisi a gweithdrefnau

Rydym yn awyddus i ddeall pa brosesau sydd gennych ar waith i reoli meysydd sy'n bwysig ar gyfer llwyddiant y prosiect ymchwil a pha gymorth y gallwn ni ei gynnig i sicrhau llwyddiant y prosiect. Byddai dolenni URL i bolisïau (yn enwedig rhai yn Gymraeg/ Saesneg) ar gyfer unrhyw rai o'r meysydd a ddisgrifir yn ddefnyddiol iawn. Rydym hefyd yn awyddus i ddeall unrhyw ofynion rheoleiddio y mae'n rhaid i chi ymgymryd â nhw i gymryd rhan yn y prosiect.

### 3. Ymateb i risgiau yn gysylltiedig â chamymddwyn, gan gynnwys twyll

Rydym yn ceisio deall prosesau eich sefydliad ar gyfer datrys materion yn ymwneud â chamymddwyn a thwyll a nodi unrhyw feysydd risg a all effeithio ar gyflawni prosiectau ymchwil er mwyn cynllunio datrysiadau priodol.

### 4. Rheoli is-gontractau

Mae disgwyl i sefydliadau arweiniol ymgymryd â gwiriadau cydymffurfio ar wariant is-gontractwyr ac felly mae'n rhaid i ni ddeall pa wiriadau diwydrwydd dyladwy rydych chi'n eu gwneud mewn perthynas â'ch is-gontractwyr a sut y gallwn sicrhau eu bod yn gweithredu yn unol â thelerau ac amodau'r cyllidwr.

### 5. Y gallu i gyflawni: gweinyddu grantiau

Rydym yn ceisio deall pa brofiad sydd gan eich sefydliad o gymryd rhan mewn a rheoli prosiectau ymchwil cydweithredol a ariennir yn allanol, gan gynnwys os nad oes gennych brofiad blaenorol o gymryd rhan mewn prosiectau ymchwil cydweithredol a ariennir yn allanol. Rydym yn awyddus i ddeall graddfa a chwmpas y prosiectau ymchwil rydych wedi bod yn rhan ohonynt yn y gorffennol. Byddai gwybodaeth am y cyllidwr, cyfanswm gwerth y prosiect, gwerth y prosiect roeddech chi'n gyfrifol amdano a nifer y sefydliadau oedd yn rhan o'r prosiect yn wybodaeth ddefnyddiol. Rydym yn ceisio deall sut mae prosiectau ymchwil ar ariennir yn allanol yn cael eu rheoli a'u gweinyddu yn eich sefydliad.

### 6. Y gallu i gyflawni: cyllid

Rydym yn chwilio am dystiolaeth o'r modd mae prosiectau a ariennir yn allanol yn cael eu rheoli'n ariannol o fewn eich sefydliad. Rydym yn chwilio am dystiolaeth i gefnogi'r asesiad o ddiogelwch ariannol eich sefydliad a sut y gellir lliniaru risgiau os oes angen. Rydym yn chwilio am dystiolaeth y bydd eich sefydliad yn dal i fodoli yn ystod y prosiect i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni'n llwyddiannus. Rydym yn awyddus i benderfynu sut y gallwn sicrhau bod arian y prosiect yn cael ei dalu i'ch sefydliad yn ddiogel. Rydym yn awyddus i ddeall pa wiriadau mewnol ac allanol sy'n cael eu gwneud o fewn eich sefydliad yn ymwneud â thrafodion ariannol. Gallai tystiolaeth ategol gynnwys adroddiadau archwilio gan archwilwyr mewnol neu allanol neu reoleiddwyr ariannol. Rydym yn ceisio canfod pa yswiriant sydd

gennych a'i fod yn briodol ar gyfer y prosiect dan sylw.

**7. Gwybodaeth benodol i wlad**

Rydym yn chwilio am unrhyw wybodaeth am ofynion y mae'n rhaid eu hystyried wrth gynllunio i gyflawni'r prosiect yn llwyddiannus. Enghreifftiau fyddai materion megis rheolaethau mewnforio neu allforio, gofynion moeseg lleol, trwyddedau sydd eu hangen i ymgymryd â phrosiectau, cymeradwyaeth y llywodraeth i dderbyn cyllid a lefel unrhyw ffioedd cysylltiedig.

**Adran B: Manylion y Prosiect**

**8. Llywodraethu'r Prosiect**

Rydym yn chwilio am wybodaeth ynglŷn â sut y bydd y prosiect yn cael ei reoli o ddydd i ddydd. Hoffem wybod sut mae risgiau prosiect-benodol yn cael eu rheoli, sut mae'r arian yn cael ei reoli a chan bwy. Rydym yn chwilio am sicrwydd y bydd y prosiect yn cael ei gynnal yn unol â'r holl ofynion rheoleiddio a bod y rhai sy'n rhan o'r prosiect yn briodol i gynnal y prosiect. Rydym yn chwilio am wybodaeth am sefydliadau eraill sy'n rhan o'r prosiect, a fyddant yn derbyn cyllid o'r prosiect ac os felly sut mae'r cyllid yn cael ei reoli. Rydym yn ceisio deall pa adnoddau sydd gennych ar gael ac a ydynt yn ddigonol at ddibenion y prosiect, neu a oes unrhyw beth arall y gallwn ei ddarparu i gefnogi canlyniad llwyddiannus y prosiect.

**Dolenni defnyddiol:**

- Ymchwil Dibynadwy ar gyfer Academia: https://www.cpni.gov.uk/trusted-research
- Map Llwybr Ymchwil a Datblygu yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol: https://www.gov.uk/government/publications/uk-research-and-development-roadmap

Awdur(on) y polisi:

**Dr Matt Briggs**

**Pennaeth Datblygu Ymchwil**

Rheoli fersiynau'r ddogfen

| Rhif y Fersiwn: | Rheswm dros newid: | Awdur: | Dyddiad y newid: |
|---|---|---|---|
| Drafft v1 | Ystyriaeth a chymeradwyaeth gan y Pwyllgor Ymchwil | MB | 11 Hyd 2023 |
| Fersiwn Derfynol v1 | Ystyriaeth gan y Senedd | MB | 24 Ebrill 2024 |
| | | | |
| | | | |

Statws cyfredol y Polisi: Wedi'i gymeradwyo

Mae'r Polisi'n berthnasol i'r canlynol: AB

Dyddiad cadarnhau: diwrnod / mis / blwyddyn. 11/10/23

Dyddiad y daw i rym: diwrnod / mis / blwyddyn 24/04/24

Dyddiad adolygu'r polisi: diwrnod / mis / blwyddyn 11/10/25

I'w gyhoeddi: ar wefan PCYDDS / MyDay

*Cymeradwyo*

*Caiff y polisi ei ystyried yn ffurfiol a'i gymeradwyo'n unol â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor a amlinellir yn y Llawlyfr Ansawdd Academaidd.*

*Os bydd y polisi'n effeithio ar staff, dylid ceisio cyngor gan AD o'r dechrau i ganfod a oes angen ymgynghori â'r JCC. Bydd AD hefyd yn rhoi cyngor ar y cyfnod mwyaf addas i ymgynghori â'r JCC ac ynghylch p'un a oes angen cymeradwyaeth y Cyngor*

*Rhaid cynnwys y canlynol gyda PHOB polisi a gyflwynir i'w gymeradwyo:*

- *Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg*
- *Asesiad o'r Effaith Sefydliadol*
- *Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data*

*Cyn ei gyflwyno i'r pwyllgor, gofynnir i awduron ymgynghori â'r Tîm Polisi a Chynllunio a fydd yn gwirio bod y ddogfen yn cydymffurfio â gofynion y Brifysgol. Bydd y Tîm Polisi a Chynllunio'n cwblhau'r adran isod:*

***I'w gwblhau gan ysgrifennydd y pwyllgor***

*Ticiwch i gadarnhau'r canlynol:*

*Mae Asesiad o'r Effaith Sefydliadol wedi'i gwblhau* ☒

*Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Iaith Gymraeg wedi'i gwblhau* ☒

*Mae Asesiad o'r Effaith ar Ddiogelu Data wedi'i gwblhau* ☒

*Materion y mae angen i'r pwyllgor cymeradwyo eu hystyried:*

Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David